

# Hysbysiad o ddyddiad penodedig ar gyfer arfer hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Cyngor Cymuned Llanwinio

Diwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth 2020

- 1) Dyddiad cyhoeddi 10fed o Awst 2020.
- 2) Bob blwyddyn, caiff y cyfrifon blyneddol eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae gan unrhyw berson â diddordeb y cyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac ati sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl rhoi rhybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, bydd y dogfennau hyn ar gael ar hysbysiad rhesymol wrth wneud cais i:

Mr Kevin Bowen, Clerc Cyngor Cymuned Llanwinio  
18 Bryngorwel, Caerfyrddin SA31 1SG  
Ffôn: 01267 230413

rhwng yr oriau o 09:00 – 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener  
yn dechrau ar 1af Medi 2020  
ac yn diwedd ar yr 28ain o Fedi 2020

- 3) O 29ain Medi 2020 hyd nes y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau, mae gan etholwyr llywodraeth leol a'u cynrychiolwyr hefyd:
  - Yr hawl i gwestiynu'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon. Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy Grant Thornton; a chael
  - yr hawl i fod yn bresennol gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a gwneud gwrthwynebiadau i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Yn gyntaf, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol drwy Grant Thornton. Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad ysgrifenedig hefyd i'r Cyngor.
  - Gellir cysylltu â Grant Thornton yn: Grant Thornton, 3 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT
  - Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) 2014 a chod ymarfer archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.